# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14:00 ar 2 Chwefror 2023, MS Teams.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Otar Akanyeti; Mr Thomas Bates; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd Undeb y Myfyrwyr; Ms Ash Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr; Dr Louise Marshall; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Heather Norris; Ms Jackie Sayce; Dr Samuel Raybone; yr Athro Eleri Pryse; yr Athro Phillipp Schofield; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Dr Alistair Shepherd; Dr Guy Baron; Dr Cathryn Charnell-White; yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; yr Athro Jamie Medhurst; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; a Dr Anoush Simon. |
| Aelodau o'r Bwrdd Academaidd yn bresennol: | Yr Athro Joanne Hamilton, Deon Cysylltiol Dysgu ac Addysgu, Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Dr Malte Urban, Deon Cysylltiol Dysgu ac Addysgu, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Mr Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio. |
| Yn gweinyddu: | Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth; Dr Gethin Rhys, Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestryddion; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Heledd Davies, Cyfieithydd ar y Pryd; a Ms Emma Williams, Ysgrifennydd a Chofrestrydd Academaidd Dros Dro y Brifysgol. |

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Lucy Trotter, Sarah Higgins, yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Dr Fred Long, Deon Cysylltiol Dysgu ac Addysgu Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol; yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Mererid Hopwood; yr Athro Nigel Holt; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd; Alexander Pitchford; Dr Alex Mangold.

## 33. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

    1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod o'r Senedd:

        1. Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol

        2. Alistair Shepherd, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

2. Gŵyl y Banc mis Mai

NODWYD

Cynnig y dylai'r dysgu fynd rhagddo ar ddydd Llun olaf Semester 2 fel sydd eisoes wedi'i amserlennu ar gyfer gŵyl y banc ar 1 Mai 2023.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo'r cynnig i fwrw ymlaen â'r dysgu ar 1 Mai 2023, a diweddaru Dyddiadau'r Tymor ar gyfer 2022/23 yn unol â hynny.

3. Gwobrau i Fyfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd, y Gofrestrfa Academaidd (SEN2223-045).

NODWYD

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Gofrestrfa Academaidd, roedd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol wedi cynnig ailenwi Gwobr I L Gowan, Gwyddor Wleidyddol, fel a ganlyn: Gwobr Ivor L Gowan, Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol. Sefydlwyd y wobr ym 1989 gyda rhodd gan yr Athro Emeritws I L Gowan, a fu'n Athro Gwyddor Wleidyddol yn Aberystwyth, ac roedd yr adran yn fodlon y byddai'r enw newydd yn cyd-fynd â'r nod gwreiddiol ond hefyd yn adlewyrchiad cywir o'r dysgu a'r ymchwil ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau'r ailenwi fel a ganlyn: Gwobr Ivor L Gowan, Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol.

4. Cadeirydd Bwrdd Arholi'r Senedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr (SEN2223-046).

NODWYD

Yn sgil y ffaith fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fwyfwy aml, ac i sicrhau bod dyfarniadau a chynnydd myfyrwyr yn cael eu cymeradwyo'n brydlon, cynigiwyd galluogi'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr) i ddirprwyo swyddogaeth Cadeirydd Bwrdd Arholi'r Senedd i aelod o'r Bwrdd Academaidd

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo newidiadau i aelodaeth Bwrdd Arholi'r Senedd fel y'i cyhoeddwyd yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd 3.5.7. Byddai'r Cadeirydd yn Ddirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am safonau academaidd, oni bai bod y Dirprwy Is-Ganghellor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i aelod o'r Bwrdd Academaidd.

**34. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd, y Gofrestrfa Academaidd (SEN2223-047).

NODWYD

Ni roddwyd gwybod am unrhyw wrthdaro buddiannau.

**35. NEWIDIADAU I'R RHEOLIADAU A MESURAU CYSYLLTIEDIG YN SGIL GWEITHREDU DIWYDIANNOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Academaidd (SEN2223-048).

NODWYD

1. Cynigiwyd y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau yn sgil gweithredu diwydiannol yr UCU. Eu nod oedd galluogi myfyrwyr i gael canlyniadau eu modiwlau, symud ymlaen yn eu cynlluniau astudio, cael canlyniadau dyfarniadau ac, wedi iddynt ennill cymhwyster, mynd i seremonïau graddio yn y dyfodol.

2. Croesawodd y Senedd y cynnig i sefydlu gweithgor i oruchwylio'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu. Byddai'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr a staff o'r Cyfadrannau, y Gofrestrfa Academaidd, Cyfathrebu a'r Gwasanaethau Gwybodaeth.

3. Byddai'r gweithgor yn gwahodd adrannau i roi adborth ar ofynion Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol, ac unrhyw effaith ar gyflawni canlyniadau dysgu ar lefel cynlluniau.

4. Cynigiwyd cyfres o egwyddorion cyffredinol yn y papur. Cytunwyd y dylid newid yr ail egwyddor fel ei bod yn datgan 'na ddylai myfyrwyr, yn gyffredinol, orfod cael eu hasesu ar fodiwlau os na chafodd yr asesiad ei gynnal fel y trefnwyd…'.

5. Wrth gynnig mesurau i alluogi dyfarnu graddau lle gellid dangos bod canlyniadau dysgu'r cynlluniau wedi cael eu cyflawni, roedd y cynigion yn seiliedig ar brofiad blaenorol o weithredu diwydiannol yn 2006 a 2018, y pandemig yn 2020 a 2021, a chanllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac UUK. Byddent yn galluogi dyfarnu graddau lle'r oedd y marciau ar gael ar gyfer o leiaf ddwy ran o dair o'r credydau a ddefnyddir i gyfrifo'r dyfarniad, gan gynnwys y modiwlau hynny â dangosyddion Y ar gyfer cwblhau'n rhannol (o leiaf 50% o asesiadau'r modiwl).

6. Mynegwyd pryderon, yn achos cynlluniau Meistr Integredig, y gallai'r cynigion alluogi myfyrwyr i raddio heb unrhyw farciau ar lefel y dyfarniad (lefel M) a chytunwyd y dylai'r gweithgor ystyried addasiadau pellach i'r rheoliadau er mwyn diogelu'r dyfarniadau hynny. Cytunwyd hefyd y dylai'r gweithgor edrych ar eiriad dyfarnu graddau o'i gymharu â'r addasiadau a gymeradwywyd yn ystod y pandemig, er mwyn ystyried yr effaith ar fyfyrwyr Blwyddyn 2 ar hyn o bryd os bydd y gweithredu diwydiannol yn parhau yn ystod 2023/24, ac er mwyn ystyried ar ba sail y gellid disgwyl i fyfyrwyr wneud penderfyniad gwybodus am dderbyn dosbarthiadau gradd dangosol.

7. Byddai modiwlau heb unrhyw asesu (dangosydd Q) neu asesu rhannol (dangosydd Y) yn cael eu heithrio o'r cap safonol ar nifer y credydau y gellid eu hailsefyll yn ystod y cyfnod ailsefyll ym mis Awst. Byddai angen cefnogaeth ychwanegol ar fyfyrwyr Blwyddyn 2 a fu'n wan eu perfformiad er mwyn symud ymlaen i'r flwyddyn astudio derfynol yn 2023/24.

8. Byddai angen trafodaeth bellach ar yr effaith ar y cwrs TAR, a hefyd ar gynlluniau Dysgu o Bell.

9. Roedd cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr wedi trafod y cynigion drafft gyda'r Cofrestrydd Academaidd, ac wedi cadarnhau eu cefnogaeth i'r newidiadau cyffredinol i'r rheoliadau.

10. Wedi i'r gweithgor benderfynu ar y manylion terfynol, byddai'r newidiadau i'r rheoliadau a'r mesurau cysylltiedig eraill yn cael eu cyhoeddi i'r myfyrwyr a'r staff drwy gyfrwng datganiad ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

11. Roedd y trafodaethau gyda'r UCU yn parhau ar lefel y Deyrnas Unedig.

**PENDERFYNWYD**

12. Cymeradwyo'r newidiadau i'r rheoliadau a'r mesurau cysylltiedig yn sgil gweithredu diwydiannol, gyda mân newidiadau fel y nodir yn y cofnodion.

13. Sefydlu gweithgor i oruchwylio cyflwyno'r newidiadau i'r rheoliadau a'r mesurau cysylltiedig yn sgil gweithredu diwydiannol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried pwyntiau a nodwyd gan y Senedd ac a gofnodwyd yn y cofnodion.

## 36. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

NODWYD

Roedd cyfarfod nesaf y Senedd wedi cael ei aildrefnu a byddai'n cael ei gynnal ar 3 Mai 2023.

HGRh 20/04/23